# COMMUNICATION – PECS




### What is Picture Exchange Communication System (PECS)?

The Picture Exchange Communication System (PECS) was originally developed for use with pre-school children with ASD and other social communicative disorders who display no functional communication. i.e. child does not routinely approach others to communicate, actively avoids interaction with others, or only communicates in a response to a direct cue to do so.

## How does PECS work?

PECS is a systematic way to teach a child how to communicate with someone else. This program teaches children to initiate an interaction by exchanging a picture of a desired item for the actual item itself. By using PECS, you can often take a child with no interest in other people and get them to the stage where they spontaneously initiate an interaction.

The PECS program involves very specific phases and steps that must be taught in the correct order and in the correct manner. Step Up to SCIP Outreach can provide training and support in using PECS with a child.

## What Are the PECS Phases?

**1. How to Communicate:** In the first phase, the child will learn that if they hand an adult a picture, they will get what they want in return.

**2. Distance and Persistence:** In this phase, the picture will be moved farther away from the child and he'll have to go get it. The child learns that he needs to be persistent to communicate.

**3. Picture Discrimination:** At this point, the child will be given two pictures to choose from. The child must find the picture that he wants and give that to the adult.

**4. Sentence Structure:** In this phase, the child learns how to form a simple sentence. The child is required to place the "I want" picture on the strip along with the picture of what they want.

## Top Tips

- **Use motivators to encourage communication:** Follow the child's lead and see what interests them. Finding highly motivating items and activities makes an excellent first step in increasing meaningful, spontaneous communication.
- **Model the language:** Model the name of the item or activity the child selects. If the child moves toward bubbles, simply say the word "bubbles" each time before you blow them. This way the child knows what is expected of her and attaches meaning to the word "bubbles."
- **Create many opportunities for communicating:** After you model what you expect, simply wait a moment for the child to initiate. For example, take a few turns blowing bubbles, put the top back on the bottle and wait for the child to initiate by reaching or looking for the bubbles. Don't preempt
- **Assume competence and expect communication**
  Don't preempt. For example we might give a child water at snack time because we don't know whether or not they can ask for it. We might also say, 'Here's your drink' rather than teaching the child to ask for it. Sometimes it is easier to if we just give them the item they need or want but we must expect the child to communicate.




# LLUNIAU - PECS

### Beth yw’r System Gyfathrebu trwy Gyfnewid Lluniau (PECS)?

Datblygwyd y System Gyfathrebu trwy Gyfnewid Lluniau (PECS) yn wreiddiol i'w defnyddio gyda phlant cyn oed ysgol ag ASA ac anhwylderau cyfathrebu cymdeithasol eraill lle nad ymddengys unrhyw sgiliau cyfathrebu swyddogaethol. h.y. nid yw plentyn yn mynd at eraill yn rheolaidd i gyfathrebu, mae'n osgoi rhyngweithio ag eraill neu nid yw’n cyfathrebu ond mewn ymateb i sbardun uniongyrchol i wneud hynny.

## Sut mae PECS yn gweithio?

Mae PECS yn ffordd systematig o addysgu plentyn sut i gyfathrebu â rhywun arall. Mae'r rhaglen hon yn dysgu plant i ddechrau rhyngweithio â rhywun arall trwy gyfnewid llun o eitem a ddymunir ar gyfer yr eitem ei hun. Yn aml, trwy ddefnyddio PECS, gallwch fynd â phlentyn nad oes ganddo/ganddi unrhyw ddiddordeb mewn pobl eraill a'u helpu i gyrraedd y cam lle mae’n dechrau rhyngweithio ag eraill yn ddigymell.
Mae'r rhaglen PECS yn cynnwys camau penodol iawn a chamau y mae'n rhaid eu haddysgu yn y drefn gywir ac yn y modd cywir. Gall Step Up to SCIP Outreach ddarparu hyfforddiant a chymorth i ddefnyddio PECS gyda phlentyn.

## Beth yw'r camau PECS?

1. **Sut i Gyfathrebu:** Yn y cam cyntaf, bydd y plentyn yn dysgu y bydd yn cael yr hyn mae ei eisiau yngyfnewid am roi llun i oedolyn.
2. **Pellter a Dyfalbarhad:** Yn ystod y cam hwn, bydd y llun yn cael ei symud ymhellach i ffwrdd o'r plentyn ac fe fydd yn rhaid iddo fynd i'w gael. Mae'r plentyn yn dysgu bod angen iddo fod yn ddyfal i gyfathrebu.
3. **Gwahaniaethu ar sail Llun:** Yn ystod y cam hwn, bydd y plentyn yn cael dau lun i ddewis o’u plith. Rhaid i'r plentyn ddod o hyd i'r llun mae am ei gael a rhoi hwnnw i'r oedolyn.
4. **Strwythur Brawddegau:** Yn ystod y cam hwn, mae'r plentyn yn dysgu sut i ffurfio brawddeg syml. Mae'n ofynnol i'r plentyn roi'r llun "Dw i ei eisiau" ar y stribed ynghyd â'r llun o'r hyn mae ei eisiau.

## Awgrymiadau Da

- **Defnyddiwch gymhellion i annog cyfathrebu:** Dilynwch esiampl y plentyn i weld beth sydd o ddiddordeb iddo. Mae dod o hyd i eitemau a gweithgareddau ysgogol iawn yn gwneud cam cyntaf rhagorol o ran cynyddu cyfathrebu ystyrlon, digymell.
- **Modelu'r iaith:** Modelwch enw'r eitem neu'r gweithgaredd mae'r plentyn yn ei ddewis. Os yw'r plentyn yn symud tuag at swigod, dywedwch y gair "swigod" bob tro cyn i chi eu chwythu. Fel hyn mae'r plentyn yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ganddo ac yn rhoi ystyr i'r gair "swigod".
- **Creu llawer o gyfleoedd i gyfathrebu:** Ar ôl i chi fodelu'r hyn a ddisgwyliwch, arhoswch eiliad i'r plentyn roi cychwyn ar bethau. Er enghraifft, cymerwch ychydig o droeon yn chwythu swigod, rhowch y top yn ôl ar y botel ac arhoswch i'r plentyn roi cychwyn ar y broses trwy estyn llaw i’r botel swigod neu chwilio amdani. Peidiwch â chymryd y cam cyntaf.
- **Rhagdybio cymhwysedd a disgwyl cyfathrebu**
  Peidiwch â chymryd y cam cyntaf. Er enghraifft, efallai y byddwn ni'n rhoi dŵr i blentyn yn ystod amser byrbrydau gan nad ydyn ni'n gwybod a allai ofyn amdano neu beidio. Gallem hefyd ddweud, 'Dyma eich diod chi' yn hytrach na dysgu'r plentyn i ofyn amdano. Weithiau mae'n haws os ydyn ni'n rhoi'r eitem mae ei hangen neu ei eisiau arnyn nhw, ond mae'n rhaid i ni ddisgwyl i'r plentyn gyfathrebu.